# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 8 Mawrth 2000

[R] yn dynodi bod Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant
5 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Deddf Llywodraeth Leol (Adran 28)

**C5 Mick Bates:** Pa asesiad a wnaethpwyd o effeithiau posibl y cynnig i ddiddymu adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 ar addysg yng Nghymru? (OAQ3976)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Mae Llywodraeth y DU yn parhau i ystyried ei ymateb i'r cynnig a drechwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ddydd Llun 7 Chwefror ynghylch diddymu adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1986.

Mae'n bwysig gwerthfawrogi na fu darpariaethau adran 28 erioed yn berthnasol i weithgareddau ysgolion. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith honno, a'r mater a ddiddymir adran 28 ai peidio yn y pen draw, yr wyf eisoes wedi penderfynu comisiynu adolygiad o gylchlythyr 45/94 y Swyddfa Gymreig, sydd yn rhoi arweiniad am sut y dylid dysgu addysg ryw mewn ysgolion.

### Addysg Gymraeg (Dinas a Sir Abertawe)

**C6 Alun Cairns:** Pa drafodaethau a gafodd Rosemary Butler â swyddogion Dinas a Sir Abertawe ynglŷn â darpariaeth addysg gynradd Gymraeg? (OAQ3996)

**Rosemary Butler:** Dim.

### Polisïau Addysg

**C7 David Lloyd:** Sut y mae Rosemary Butler yn bwriadu sicrhau ein bod yn datblygu polisïau addysg yn arbennig ar gyfer anghenion Cymru? (OAQ3934)

**Rosemary Butler:** Mae defnyddio polisïau addysg a hyfforddiant mewn ffyrdd sydd yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau neilltuol Cymru yn un o'r saith prif egwyddor polisi a geir yn y Papur Gwyn 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog gyda'n Gilydd', a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1997 ac sydd yn derbyn cefnogaeth lawn y Cynulliad. Byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymiad hwn drwy seilio ein polisïau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o ymarfer llwyddiannus yn ysgolion Cymru; drwy ymgynghori gydag athrawon a gwrando ar eu barn; drwy werthuso'r polisïau hynny drwy gyfrwng arolygon ac archwiliadau Estyn yn ogystal â dulliau eraill er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu'n effeithiol.

### Aseswyr ac Ymgynghorwyr Allanol (Fframwaith Rheoli Perfformiad)

**C8 Jonathan Morgan:** A wnaiff Rosemary Butler egluro'r gwahaniaeth rhwng aseswyr allanol ac ymgynghorwyr allanol yn y fframwaith rheoli perfformiad newydd i athrawon? (OAQ3918)

**Rosemary Butler:** Fel rhan o'm datganiad yr wythnos diwethaf, dywedais y bydd gofyn i awdurdodau addysg lleol ymestyn eu rôl ymgynghorol presennol mewn ysgolion i roi cyngor am reoli perfformiad.

Bydd hyn yn cynnwys cyngor i ysgolion am sefydlu polisïau rheoli perfformiad, a chyngor i lywodraethwyr am osod amcanion perfformiad i brifathrawon.

Nid oes bwriad cynnwys aseswyr allanol dan y trefniadau rheoli perfformiad, ond bwriedir cynnwys aseswyr allanol fel rhan o'r system dalu ddiwygiedig i athrawon. Eu gwaith fydd arolygu'r dehongliad o safonau'r trothwy tâl. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi cytuno mewn egwyddor i drefnu i awdurdodau addysg lleol Cymru weithio fel aseswyr ar gyfer y trothwy yng Nghymru.

## Tymhorau Ysgolion

**C9 Jane Davidson:** Pa drafodaethau a gafodd Rosemary Butler â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac undebau'r athrawon ynghylch pennu'r un dyddiadau ar gyfer tymhorau ysgolion ledled Cymru? (OAQ3998)

**Rosemary Butler:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nac undebau'r athrawon am y mater hwn. Dywed Adran 41 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mai awdurdodau addysg lleol sydd yn gyfrifol am osod dyddiadau tymhorau a gwyliau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion a reolir yn wirfoddol neu ysgolion arbennig cymunedol ac mai'r corff llywodraethu perthnasol sydd yn gyfrifol yn achos ysgolion sylfaen, ysgolion a gaiff gymorth gwirfoddol neu ysgolion arbennig sylfaen.

Deallaf, fodd bynnag, bod y Gymdeithas yn ystyried adroddiad a roddwyd gerbron gan un o'i haelodau am newidiadau posibl i'r flwyddyn ysgol ac, fel rhan o'r ystyriaethau hyn, mae'r agweddau hyn yn siwr o gael eu trin a'u trafod. Edrychaf ymlaen at glywed gan y Gymdeithas ar ôl iddi benderfynu ar ei chasgliadau.

## Grantiau Cyfrifiaduron

**C10 Kirsty Williams:** A oes gan Rosemary Butler gynlluniau i roi grantiau i athrawon yng Nghymru ar gyfer cyfrifiaduron, yn debyg i'r rhai sydd ar gael yn Lloegr? (OAQ3973)

**Rosemary Butler:** Mae'r cynllun cyfrifiaduron i athrawon yn rhan o becyn o fesurau sydd yn cael eu datblygu gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth er mwyn cynyddu'r cyfle i'r cyhoedd ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Caiff ei ariannu gan y gronfa moderneiddio cyfalaf a gyhoeddwyd gan y Canghellor fis Mawrth diwethaf. Mae'r mesurau eraill yn cynnwys sefydlu canolfannau dysgu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a darparu cyfrifiaduron wedi'u hailgylchu i aelwydydd sydd ar incwm isel.

Dyrannwyd adnoddau o'r gronfa moderneiddio cyfalaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae wedi neilltuo £18 miliwn i gefnogi strategaeth dair blynedd i gynyddu'r cyfle i ddefnyddio TGCh er mwyn cefnogi dysgu mewn ysgolion ac yn y gymuned. Cyhoeddais ym mis Rhagfyr y defnyddir y rhan gyntaf o'r cyllid ar gyfer 1999-2000 i ddarparu cyfrifiaduron côl a bwndeli meddalwedd ar gyfer tua 330 o athrawon ysgol gynradd sydd yn cymryd rhan mewn prosiect rhifedd newydd; cyfrifiaduron côl ar gyfer penaethiaid ysgolion uwchradd; a gwell seilweithiau TGCh ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, a fydd yn eu galluogi i gyfrannu cynnwys digidol i'r Grid Dysgu Cenedlaethol.

Bydd y cynigion ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

## Tâl Rheoli Perfformiad (Canlyniadau Crai Disgyblion)

**C11 Jenny Randerson:** Yn dilyn meini prawf yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr ar drothwy tâl rheoli perfformiad, sut mae Rosemary Butler yn bwriadu cyflwyno system ar gyfer Cymru fydd yn glynu wrth y dymuniad sydd yn cael ei ddatgan yn aml gan y Pwyllgor Addysg Cyn-16 i beidio â chymryd canlyniadau crai disgyblion i ystyriaeth? (OAQ3967)

**Rosemary Butler:** Mae'r cyfrifoldeb statudol dros dâl ac amodau athrawon yng Nghymru a Lloegr yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth. Golyga hyn nad yw gweithredu'r cynigion ar gyfer tâl ac amodau yng Nghymru, gan gynnwys gosod safonau'r trothwy tâl, yn fater i'w ystyried gan y Cynulliad.

Nid yw'r cynigion ar gyfer safonau'r trothwy tâl a gyflwynwyd gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth wedi eu seilio'n llwyr ac yn syml ar ganlyniadau disgyblion. Mae safonau'r trothwy tâl yn cynnwys pump prif faes dysgu yn yr ystafell ddosbarth, a dim ond un ohonynt yw cynnydd y disgybl. Yn y maes penodol hwn, bydd yn rhaid i'r athrawon ddangos bod eu disgyblion yn cyflawni'n dda, ond o'i gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol.

### Addysgu Plant ag Anabledd Corfforol

**C12 Jane Davidson:** Pa ganllawiau y bydd Rosemary Butler yn eu rhoi i awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sydd yn dioddef o anabledd corfforol yn cael eu haddysgu mewn mannau addas? (OAQ3999)

**Rosemary Butler:** Lle awdurdodau addysg lleol yw penderfynu pa fesurau sydd yn rhaid eu cymryd fesul ysgol. Yn ogystal â'u dyraniadau cyllido cyfalaf cyffredinol arferol, gallant hefyd ddefnyddio mesurau'r Fargen Newydd: Cyllid Cyfalaf Ychwanegol i Ysgolion.

### Cyngor Addysgu Cyffredinol

**C13 Jenny Randerson:** A wnaiff Rosemary Butler ailystyried y trefniadau ar gyfer sefydlu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol? (OAQ3969)

**Rosemary Butler:** Nid oes gennyf unrhyw fwriad i aildrefnu'r amserlen ar gyfer Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mae'r etholiadau wedi cychwyn a 28,500 o bapurau pleidleisio wedi eu hanfon i'r athrawon sydd ar y rhestr etholwyr. Byddai gohirio'r etholiad yn niweidio'r broses o sefydlu'r Cyngor yn ffurfiol, sydd i ddigwydd fis Medi eleni.

### Tlodi Bwyd (Cwricwlwm Ysgol)

**C14 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i amlygu materion tlodi bwyd yng nghwricwlwm yr ysgolion? (OAQ3923)

**Rosemary Butler:** Mae bwyd yn bwnc pwysig iawn a chaiff hyn ei adlewyrchu'n llawn yn y cwricwlwm newydd. Mae bwyd, gan gynnwys maeth a materion eraill sydd yn ymwneud â iechyd, yn amlwg iawn yn y rhaglenni astudio ar gyfer gwyddoniaeth, addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg. Cynhwysir ef hefyd yn y fframwaith newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.

Gan fod bwyd yn elfen mor bwysig o'r hyn y dylai disgyblion ei ddysgu, yr wyf wedi gofyn i ACCAC, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, roi canllawiau i ysgolion a fydd yn dwyn ynghyd yr elfennau sydd yn ymwneud â bwyd yn y cwricwlwm. Bydd y rhain yn cael eu hanfon i ysgolion cyn gynted â phosib.

Yr ydym hefyd am sicrhau bod prydau bwyd ysgol yn helpu i gyfrannu at ddeiet iach i ddisgyblion. Bwriadaf felly ymgynghori ynghylch y rheoliadau drafft sydd yn pennu safonau maeth sylfaenol ar gyfer prydau bwyd ysgol yn nes ymlaen eleni.

### System Rheoli Perfformiad

**C15 David Melding:** A wnaiff Rosemary Butler roi adroddiad gwaith ar ei chynlluniau i sefydlu system rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yng Nghymru? (OAQ3908)

**Rosemary Butler:** Cyhoeddais becyn rheoli perfformiad ar 1 Mawrth sydd yn ymateb i’r prif bryderon a ddeilliodd o’r ymgynghoriad. Mae’n sensitif i anghenion y system addysg yng Nghymru ac yn ystyried y gwahanol feysydd lle mae athrawon yn gweithio. Mae’n cynnwys cyfraniad sylweddol i wella cefnogaeth awdurdodau lleol a bydd yn helpu i leihau biwrocratiaeth a chostau. Cynigia ragor o amser ar gyfer y cyfnod pontio i athrawon ac eraill baratoi ar gyfer y diwygiadau i’r trefniadau rheoli perfformiad. Bydd yn darparu hyfforddiant wedi’i dargedu i fodloni anghenion penodol pawb dan sylw ac yn ystyried anghenion ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

### Deddf Llywodraeth Leol (Diddymu Adran 28)

**C16 Christine Humphreys:** Pa asesiad a wnaethpwyd o effeithiau posibl diddymu adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 ar addysg yng Nghymru? (OAQ3974)

**Rosemary Butler:** Cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Mick Bates yn gynharach y prynhawn yma (OAQ3976).

### Estyn

**C17 Jonathan Morgan:** Pam na ddewiswyd Estyn i weinyddu’r asesiad o’r fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yng Nghymru? (OAQ3919)

**Rosemary Butler:** Ni fwriedir defnyddio aseswyr allanol dan y trefniadau rheoli perfformiad. Fel rhan o’r pecyn rheoli perfformiad a gyhoeddais yr wythnos diwethaf, dywedais y gofynnir i awdurdodau addysg lleol ymestyn eu rôl ymgynghorol presennol mewn ysgolion i gynnwys cynnig cyngor am reoli perfformiad.

### Cyfrifiaduron Côl

**C18 Michael German:** A yw’n fwriad gan Rosemary Butler i ymestyn y cynllun i ddarparu cyfrifiaduron côl ar gyfer pob pennaeth ysgol uwchradd i gynnwys penaethiaid ysgolion cynradd? (OAQ3972)

**Rosemary Butler:** Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ymestyn y cynllun hwn i gynnwys prifathrawon ysgolion cynradd.

Darparu cyfrifiaduron, gwasanaethau’r rhyngrwyd a hyfforddiant TGCh i ysgolion cynradd oedd y flaenoriaeth gyntaf ar gyfer datblygu’r Grid Dysgu Cenedlaethol yng Nghymru, ynghyd â hyfforddiant cysylltiedig. Rhyddhawyd oddeutu £20 miliwn at y pwrpas hwn yn y cyfnod 1998-99 i 2000-01. Yr oedd y cynlluniau TGCh newydd a gyhoeddais ym mis Rhagfyr hefyd yn cynnwys darparu cyfrifiaduron côl a bwndeli meddalwedd i 330 o athrawon ysgolion cynradd fel rhan o fenter rhifedd newydd. Bydd hyn yn datblygu’r gwersi a ddysgwyd o gynllun cyfrifiaduron symudol aml-gyfrwng ar gyfer llythrennedd yng nghyfnod allweddol 2 y llynedd a roddodd 110 o gyfrifiaduron côl i athrawon ysgol cynradd.

### Adran 28 (Cynnig i Ddiddymu)

**C19 Peter Black:** A wnaiff Rosemary Butler roi datganiad ar effaith y cynnig i ddiddymu adran 28 ar addysg yng Nghymru? (OAQ3965) [R]

**Rosemary Butler:** Cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Mick Bates yn gynharach y prynhawn yma (OAQ3976).

### Cyllid Ychwanegol i Ddosbarthiadau Chwech

**C20 Peter Black:** A yw’n fwriad gan Rosemary Butler i ddarparu cyllid ychwanegol penodol i’r chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd er mwyn rhoi cymorth iddynt gyflwyno’r cwricwlwm? (OAQ3966)

**Rosemary Butler:** Yn fy atebion ar 2 Chwefror i Elin Jones a Michael German, fe'i gwnaethum yn glir bod rhagor o adnoddau wedi eu rhyddhau ar gyfer gweithredu'r diwygiadau pwysig i gymwysterau ôl-16 y mis Medi hwn.

Bydd y diwygiadau yn annog rhychwant eang mewn astudiaethau ôl-16 ac yn helpu i sefydlu cydraddoldeb rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Yr oedd trafodaethau gydag awdurdodau lleol am eu hanghenion gwario ar gyfer y flwyddyn 2000-01 yn ystyried eu hasesiad o'r cyllid ychwanegol yr oedd ei angen i weithredu'r newidiadau hyn. Yn dilyn y trafodaethau hynny mae £91 miliwn ychwanegol wedi ei gynnwys yng ngwariant awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn 2000-01 i'w wario ar addysg. Bydd hyn yn fwy na digon i dalu am chwyddiant mewn tâl a phris ac yn caniatáu i awdurdodau ateb y cynnydd yn y galw a beichiau newydd fel y rhain.

Yn ogystal, yr ydym wedi darparu o fewn y grantiau ar gyfer cefnogaeth addysgol a rhaglen hyfforddi i gefnogi hyfforddiant i athrawon sydd yn deillio o'r diwygiadau hyn.

### Prosiectau Adeiladu Ysgolion

**C21 Owen John Thomas:** Faint o brosiectau adeiladu ysgolion sydd wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y flwyddyn 2000-01 yn ardal canol de Cymru nad ydynt yn cael eu cyllido gan y fenter cyllid preifat? (OAQ3925)

**Rosemary Butler:** Dywedwyd wrth awdurdodau lleol beth oedd eu dyraniadau cyllido cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2000-01. Eu lle hwy yw penderfynu faint o adnoddau a neilltuir i addysg ac, wedi hynny, pa brosiectau ysgol sydd i elwa.

Cyhoeddais ar 8 Chwefror brosiectau adeiladu ysgolion sydd i'w cefnogi dan y rhaglen cyfalaf i ysgolion sydd yn derbyn cymorth gwirfoddol ar gyfer 2000-01. Mae'r canlynol yn ardal canol de Cymru:

- Ysgol Gynradd Babyddol San Ffransis, Trelái, Caerdydd – cegin ac ystafell ddosbarth newydd. Amcangyfrif o gyfanswm y gost £78,620.
- Ysgol Gyfun Babyddol Cardinal Newman, Rhydfelin, Rhondda Cynon Tâf – bloc gwyddoniaeth newydd. Amcangyfrif o gyfanswm y gost £841,370.
- Ysgol Gynradd CIW yr Holl Saint, y Bari, Bro Morgannwg – meithrinfa. Amcangyfrif o gyfanswm y gost £113,643.

Yn ogystal, mae'r ceisiadau am ystafelloedd dosbarth ychwanegol dan y rhaglen lleihau maint dosbarthiadau babanod ar gyfer 2000-01 yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd ceisiadau ar gyfer y Fargen Newydd: Rhaglen Cyllid Cyfalaf Ychwanegol ar gyfer Ysgolion yn cael eu gwahodd yn fuan.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Llwybrau Troed Caeëdig

**C1 Jane Davidson:** A all yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig roi graddfa amser ar gyfer datrys materion yn ymwneud â llwybrau troed caeëdig, a ddaeth i sylw ei hadran? (OAQ4001) Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):

Dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'r dyletswydd i gynnal hawl tramwyo a chadw llwybrau ar agor yn eiddo i awdurdodau priffyrdd lleol. Rhaid i awdurdodau priffyrdd ystyried eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer hawl tramwyo yn eu hardaloedd a phenderfynu faint o adnoddau sydd eu hangen i'w cadw'n rhydd o rwystrau. Nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol i ddelio gyda llwybrau troed caeëdig ac, yn sgîl hynny, ni thynnir ein sylw at achosion unigol fel arfer.

### Indrawn wedi’i Addasu’n Enetig

**C6 Jocelyn Davies:** A wnaiff Christine Gwyther ddatganiad byr ar ei rhan hi o safbwynt cymeradwyo ychwanegu indrawn wedi’i addasu’n enetig at y rhestr hadau genedlaethol? (OAQ3951)

**Christine Gwyther:** Yr wyf i a’r Gweinidogion Amaethyddiaeth eraill, yn gyfrifol am benderfynu a ddylid derbyn mathau newydd ar Restr Hadau Cenedlaethol y DU, sydd yn cynnwys mathau wedi’u haddasu’n enetig.

Ynghylch indrawn wedi’i addasu’n enetig, ac yn sgîl pryderon y cyhoedd, mae’n bwysig bod y penderfyniad a wnaf, yn cael ei wneud yn agored a thryloyw.

### Datblygu Gwledig yng Nghymru

**C7 Dafydd Wigley:** Sut y byddai datblygiad gwledig yng Nghymru yn manteisio o aildrefnu fformwla Barnett a chytundeb ad-dalu Fontainebleau? (OAQ3981)

**Christine Gwyther:** Nid oes cynlluniau ar y gweill ar gyfer adolygu trefniadau fformwla Barnett. Hefyd, nid yw cytundeb Fontainebleau yn effeithio ar swm yr adnoddau sydd ar gael i Gymru. Mae’n darparu bod y DU yn derbyn ad-daliad gan Ewrop o ddwy ran o dair o’r gwahaniaeth rhwng ei chyfraniad crynswth i’r Undeb Ewropeaidd a’i derbyniadau gan yr Undeb. Bydd unrhyw dderbyniadau ychwanegol o Ewrop yn lleihau ad-daliad y flwyddyn ganlynol. Yn 1998-99 yr oedd yr ad-daliad yn werth tua £2.5 biliwn i’r DU.

### Cynnydd yn y Gyfradd Log

**C8 David Lloyd:** A wnaiff Christine Gwyther egluro sut y bydd y cynnydd diweddaraf yn y gyfradd log yn effeithio ar y diwydiant amaeth yn ogystal â diwydiannau eraill cefn gwlad Cymru? (OAQ3986)

**Christine Gwyther:** Amcangyfrifir bod cynnydd o un chwarter y cant mewn cyfraddau llog yn ychwanegu tua phumed ran o un y cant at gyfanswm costau’r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Er nad oes croeso i unrhyw gynnydd mewn costau dan yr amgylchiadau presennol, mae newidiadau prydlon mewn cyfraddau llog yn cyfrannu at sefydlogrwydd economaidd ac yn arwain at gyfraddau sydd ar gyfartaledd yn is yn y tymor hir. Bydd yr effeithiau ar ddiwydiannau eraill yn amrywio yn dibynnu ar eu lefel benthyca.

### Adroddiad ‘Showing the Nation’s Prosperity; Economical, Social and Environmental Conditions in the Countryside’

**C9 Dafydd Wigley:** A wnaiff Christine Gwyther wneud datganiad ar ganlyniadau adroddiad ‘Showing the Nation’s Prosperity; Economical, Social and Environmental conditions in the countryside’ a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog yn ddiweddar? (OAQ4004)

**Christine Gwyther:** Cyhoeddwyd adroddiad ‘Sharing the Nation’s Prosperity’ Swyddfa’r Cabinet i’r Prif Weinidog fis Chwefror. Mae’n amlinellu’r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng nghefn gwlad y DU a chamau’r Llywodraeth i ateb y problemau sydd yn wynebu cymunedau cefn gwlad.

Er bod llawer o’r data a gynhwysir yn y ddogfen yn ymwneud â Lloegr, mae’n cydnabod anghenion arbennig cymunedau cefn gwlad Cymru a’r camau y mae’r Cynulliad eisoes yn eu cymryd i sicrhau ymagwedd gynhwysol, integredig a strategol i fynd i’r afael â llawer o’r sialensau amrywiol sydd yn wynebu ein hardaloedd cefn gwlad ar hyn o bryd.

Mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Gwledig a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd yn Rhagfyr 1999. Gan dynnu ar waith y Bartneriaeth Wledig, mae'r cynllun yn cyflwyno strategaeth y Cynulliad ei hun er mwyn datblygu cymunedau cefn gwlad Cymru.

Bydd cymorth ar gael trwy raglenni domestig a rhaglenni Ewropeaidd eraill, megis y gronfa adfywio leol, cronfa datblygu'r amgylchedd, dogfennau rhaglennu sengl Amcan 1 a 2, rhaglen weithredol Amcan 3 a mentrau cymunedol newydd megis LEADER ac INTERREG, yn rhoi cyfleoedd sylweddol i ddatblygu atebion neilltuol Cymreig sydd yn ateb anghenion a nodweddion penodol cefn gwlad Cymru a'i chymunedau.

## Lansio Brand Cymreig (Bwyd a Chynnyrch Amaethyddol)

**C10 Michael German:** A oes amserlen wedi'i llunio ar gyfer lansio brand Cymreig i gynnyrch amaethyddol a bwyd o Gymru? (OAQ3958)

**Christine Gwyther:** Yn sgîl nodi'r angen i adolygu'r mater o frandio bwyd o Gymru, gan gynnwys defnyddio logo, fel y nodwyd yng nghynlluniau gweithredu'r diwydiant ar gyfer y sector cig oen, cig eidion, llaeth ac organig, a lansiwyd ym mis Mawrth 1999, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn ystyried, fel rhan o strategaeth amaeth-bwyd y Cynulliad, ffyrdd o ddatblygu'r broses o farchnata a hybu bwyd o Gymru. Mae cyfarwyddwyr bwyd yr Awdurdod ar fin prydlesu contract ar gyfer cynnal astudiaeth ymgynghorol i ddatblygu strategaeth fwyd ar gyfer brandio bwyd yng Nghymru gyda chefnogaeth y prif fudd-ddalwyr. Yn sgîl hyn, bydd y Cynulliad wedyn yn ystyried goblygiadau ehangach brandio cynnyrch o Gymru yn gyffredinol gan gynnwys barcutnod rhagoriaeth.

## Ymchwil Addasu'n Enetig

**C11 Alison Halford:** Faint o arian cyhoeddus a wariwyd ar ymchwil addasu'n enetig yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf? (OAQ3920)

**Christine Gwyther:** Caiff ymchwil a datblygiad amaethyddol ei gyllido drwy ystyried Cymru a Lloegr ac ni wariwyd unrhyw arian cyhoeddus ar ymchwil i addasu'n enetig yng Nghymru gan y Cynulliad na'r Swyddfa Gymreig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwariwyd oddeutu £4.375 miliwn yn 1998-99 ac oddeutu £5.045 miliwn yn 1999-2000 ar ymchwil i addasu'n enetig yng Nghymru gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a Chyngor Ymchwil y Gwyddorau Biolegol a Biotechnoleg.

Mae'r cyllid hwn yn cynnwys dau fath gwahanol iawn o ymchwil. Tra bo rhai mathau o waith ymchwil wedi eu hanelu at gynhyrchu cynnyrch sydd wedi'i addasu'n enetig, mae'r ffigurau uchod hefyd yn cynnwys arian sylweddol ar gyfer addasu genetig a gaiff ei ddefnyddio fel dull gwyddonol sylfaenol ar gyfer dibenion eraill, ac ar gyfer addasu genetig a berfformir drwy dechnegau mwy clasurol o fridio planhigion i gynhyrchu hadau confensiynol. Nid yw'n bosibl gwahanu'r ffigurau.

Nid oes unrhyw ran o'r gwaith hwn yn golygu rhyddhau organebau wedi'u haddasu'n enetig i'r amgylchedd. Cyfyngwyd y gwaith i ddefnydd dan reolaeth dan Reoliadau (Defnydd dan Reolaeth) Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig 1992, wedi'u diwygio. Caiff defnydd dan reolaeth ei reoleiddio gan yr Adran Iechyd a Diogelwch.

## Indrawn T25

**C12 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi eu cael ynglŷn â'r posibilrwydd o ychwanegu indrawn T25 at restr hadau genedlaethol Cymru? (OAQ3962)

**Christine Gwyther:** Yn sgîl pryderon y cyhoedd, mae'n bwysig bod y penderfyniadau a wnaf ynghylch y Rhestr Genedlaethol am y math GM hwn o indrawn porthi yn cael ei wneud yn agored a thryloyw.

Am y rhesymau hyn, gwahoddais y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i drafod y mater hwn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth. Mae'r Pwyllgor i drafod y mater eto, a byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad wedi hynny.

### Labelu Cynnyrch Cig

**C13 David Lloyd:** Pa ymdrech mae Christine Gwyther wedi ei wneud i sicrhau bod cynnyrch cig o anifeiliaid sydd wedi cael eu geni a'u magu yng Nghymru yn cael eu labelu i adnabod eu tras Cymreig? (OAQ3989)

**Christine Gwyther:** Mae'r Cynulliad yn awyddus i gynnyrch a bwydydd amaethyddol gyrraedd achrediad o dan gynllun diogelu enwau bwyd yr Undeb Ewropeaidd. Mae ceisiadau am gael diogelu dangosyddion daearyddol (PGI) wedi eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd o ran cig oen Cymru a chig eidion Cymru. Hysbysebwyd hysbysiadau sydd yn rhoi manylion am ddau gynllun yng nghylchgrawn swyddogol y Gymuned Ewropeaidd fis Ionawr 2000 ac mae yn awr yn agored i wrthwynebiadau gan aelod-wladwriaethau eraill. Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl chwe mis, caiff yr achrediad ei gytuno'n ffurfiol gan y Comisiwn.

Nodwyd yr angen i adolygu brandio bwydydd Cymru, gan gynnwys defnyddio logo, yn y cynlluniau gweithredu a lansiwyd fis Mawrth 1999 ar gyfer y sectorau cig coch, cynnyrch llaeth a chynnyrch organig. O fewn yr ychydig ddiwrnodau nesaf bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn penodi ymgynghorwyr i ddatblygu strategaeth flaengar ar gyfer brandio bwyd yng Nghymru â chefnogaeth cyfranddeiliaid allweddol.

Cyflwynwyd y cynllun labelu cig eidion, sydd yn rhoi Rheoliad CE 820/97 ar waith, ym mis Tachwedd 1997 i roi gwybodaeth ddibynadwy i gwsmeriaid am y cig eidion y maent yn ei brynu, yn arbennig am darddiad cig eidion, er enghraifft, a gafodd ei eni a'i fagu yng Nghymru, a'r modd y cafodd ei gynhyrchu. Ar hyn o bryd mae'n gynllun gwirfoddol ond o 1 Medi 2000 ymlaen daw rhai elfennau yn orfodol. Mae manylion y cynllun gorfodol yn y broses o gael eu penderfynu. Mae swyddogion y Cynulliad yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli.

### Y Diwydiant Amaethyddol a Chefn Gwlad Cymru

**C14 Helen Mary Jones:** A yw Christine Gwyther yn bwriadu gwneud cynrychiolaethau i'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Trysorlys i egluro'r effeithiau y mae polisi economaidd y Llywodraeth yn eu cael ar y diwydiant amaethyddol a chefn gwlad Cymru? (OAQ3987)

**Christine Gwyther:** Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â gweinidogion yn Whitehall, yn dadlau achos Cymru. Maent yn hollol ymwybodol o'm pryderon ynghylch yr anawsterau sydd yn wynebu'r diwydiant ar hyn o bryd ac o'r angen i sicrhau dyfodol tymor-hir iddo.

### Gwasanaeth Ymgynghorol i Ffermwyr

**C15 Christine Humphreys:** Pa ddatblygiadau a gafwyd o safbwynt cynnig gwasanaeth ymgynghorol i ffermwyr i'w cynorthwyo i addasu i'r amodau economaidd cyfredol? (OAQ3979)

**Christine Gwyther:** Yn dilyn cyhoeddi cynlluniau gweithredu amaeth-bwyd Cymru ym mis Mawrth 1999, sefydlwyd grŵp strategaeth datblygu fferm i helpu amaethyddiaeth yng Nghymru i addasu ac arallgyfeirio. Mae'r grŵp llywio, sydd yn cwmpasu Cymru gyfan, i yrru datblygiadau yn eu blaenau ar draws pob sector ffermio. Blaenoriaethau cyntaf y grŵp yw datblygu cynlluniau ar gyfer rhwydwaith o ffermydd arddangosfaol drwy Gymru gyfan, er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth hyfforddi i ffermwyr mewn technegau ymarfer da, busnes a sgiliau TG, ac ystyried yr angen am system gyfeirio well tuag at yr ystod o wasanaethau ymgynghori a chynghori sydd ar gael i helpu teuluoedd sydd yn ffermio i addasu. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i gwrdd â'r blaenoriaethau hyn a thrafodaethau'n cael eu cynnal rhwng y grŵp, swyddogion y Cynulliad ac amrywiol gyrff eraill.

**Trwyddedu Indrawn T25**

**C16 Michael German:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi eu cael ynglŷn â'r posibilrwydd o drwyddedu indrawn T25 yng Nghymru? (OAQ3959)

**Christine Gwyther:** Yn sgîl pryderon y cyhoedd, mae'n bwysig bod y penderfyniadau a wnaf ynghylch y Rhestr Genedlaethol am y math GM hwn o indrawn porthi yn cael ei wneud yn agored a thryloyw.

Am y rhesymau hyn, gwahoddais y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i drafod y mater hwn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth. Mae'r Pwyllgor i drafod y mater eto, a byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad wedi hynny

**Cymhorthdal Uniongyrchol**

**C17 Helen Mary Jones:** Ar gyfartaledd, faint o gymhorthdal uniongyrchol mae'r diwydiant amaeth yn ei dderbyn yr hectar yng Nghymru mewn cymhariaeth â'r hyn y mae'r diwydiant yn ei dderbyn yr hectar yn Lloegr? (OAQ3988)

**Christine Gwyther:** Cyfartaledd y cymhorthdal uniongyrchol fesul hectar o dir amaethyddol heb gynnwys tir comin pori bras yng Nghymru oedd £138 yn 1999. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Lloegr oedd £189. Fodd bynnag, trwy fynegi cymhorthdal uniongyrchol fesul hectar, nid adlewyrchir yn gywir y ffaith bod nifer o'r cymorthdaliadau a gynhwysir yn y cyfartaledd hwn yn cael eu talu fesul anifail. Nid yw'r swm a dderbynnir o'r fath daliadau'n gymesur â'r arwynebedd. Dangosir isod gymhariaeth sydd yn cymryd i ystyriaeth wahaniaethau mewn maint economaidd ffermydd, yn hytrach nag arwynebedd yn unig.

**Amcangyfrifiadau cymhorthdal uniongyrchol dros dro ar gyfer pob math o fferm 1998-99**

| £ y fferm | Bach* | Canolig* | Mawr* |
|---|---|---|---|
| Cymru | 12,276 | 34,000 | 67,612 |
| Lloegr | 9,746 | 19,484 | 46,654 |

* *Maint safonol ffermydd y DU fel y'i mesurir gan Unedau Maint Ewropeaidd (ESU).*

**'Gwell Cymru'**

**C18 Elin Jones:** Beth oedd cyfraniad Christine Gwyther i'r broses o ddrafftio dogfen ymgynghorol y Llywodraeth 'Gwell Cymru'? (OAQ3982)

**Christine Gwyther:** Fel aelod o'r Cabinet, chwaraeais ran amlwg yn natblygiad y ddogfen a'r gwaith drafftio terfynol. Yn ogystal â'm cydweithwyr yn y Cabinet a'r Cynulliad drwyddo draw, byddaf yn pwyso a mesur canlyniadau'r broses ymgynghori ar y cynllun drafft ac ystyried pa newidiadau sydd eu hangen cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol yn ddiweddarach y mis hwn.

**Pwyllgorau Monitro Cynllun Datblygu Gwledig ac Amcan 1**

**C19 Phil Williams:** Beth fydd y berthynas rhwng pwyllgor monitro cynllun datblygu gwledig a phwyllgor monitro Amcan 1? (OAQ3950)

**Christine Gwyther:** Mae'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi eu nodi yn y drafft a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 1999 ac y cyhoeddwyd ei fod wedi ei dderbyn ym mis Ionawr 2000. Mae'r Cynulliad yn disgwyl ymateb y Comisiwn i'r ddogfen cyn dechrau trafod y cynllun yn fanwl, gan gynnwys ei weithredu. Yr wyf yn cydnabod bod angen clir i sefydlu cysylltiadau rhwng y pwyllgor monitro sydd yn gyfrifol am y Cynllun Datblygu Gwledig,

pwyllgor monitro rhaglen Amcan 1 a’r pwyllgorau cyfatebol ar gyfer cynlluniau a rhaglenni Ewropeaidd eraill. Bydd y dull o sicrhau’r cysylltiadau hyn yn cael eu datblygu law yn llaw â’r trafodaethau sydd yn mynd rhagddynt gyda’r Comisiwn mewn ymgynghoriad gyda’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

## Ffermydd Bach a Chanolig eu Maint yng Nghymru

**C20 Janet Ryder:** Sut y gwnaiff Christine Gwyther sicrhau y bydd yr arbedion o fodwleiddio cymorthdaliadau amaethyddol yn cael eu defnyddio er lles y ffermydd bach a chanolig eu maint yng Nghymru? (OAQ3956)

**Christine Gwyther:** Bydd yr arian a arbedir o fodwleiddio, a’r cyllid cyfatebol gan y Trysorlys, yn cael ei ddefnyddio i gynyddu’r adnoddau sydd ar gael i weithredu’r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr, gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol, prosesu a marchnata bwyd, cefnogaeth i ardaloedd llai ffafriol a gwasanaethau cynghori a hyfforddi. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu dosbarthu yn unol â rheolau’r cynllun, gan roi sylw i’r angen i gael y gwerth mwyaf posibl am arian allan o’r gwariant.

## Lwfans Da Byw Tir Uchel

**C21 Kirsty Williams:** Pa gyfran o gyllideb y cynllun newydd lwfans da byw tir uchel sydd yn cael ei gwario ar weinyddu? (OAQ3960)

**Christine Gwyther:** Ni fydd unrhyw ran o gostau gweinyddu’r cynllun newydd ar gyfer ardaloedd llai ffafriol yn dod o gyllideb y cynllun.

## Indrawn (Rhestr Hadau Genedlaethol)

**C22 Jocelyn Davies:** A yw Christine Gwyther wedi gwneud penderfyniad i ychwanegu indrawn wedi’i addasu’n enetig at y rhestr hadau genedlaethol ac a fydd hi’n trafod y mater gyda’r Cynulliad cyn gwneud penderfyniad o’r fath? (OAQ3952)

**Christine Gwyther:** Yn sgîl pryderon y cyhoedd, mae’n bwysig bod y penderfyniadau a wnaf ynghylch y Rhestr Genedlaethol am y math GM hwn o indrawn porthi yn cael ei wneud yn agored a thryloyw.

Am y rhesymau hyn, gwahoddais y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i drafod y mater hwn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth. Mae’r Pwyllgor i drafod y mater eto, a byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad wedi hynny.

## Gwefan ar gyfer Bwyd a Chynnyrch Amaethyddol Cymreig

**C23 Jenny Randerson:** A oes unrhyw amserlen wedi ei phennu ar gyfer lansio gwefan ar gyfer bwyd a chynnyrch amaethyddol Cymreig ar y rhyngrwyd? (OAQ3961)

**Christine Gwyther:** Fel rhan o strategaeth amaeth-bwyd y Cynulliad mae cyfarwyddwyr bwyd Awdurdod Datblygu Cymru wedi bod yn datblygu ei strategaeth rhyngrwyd ers chwe mis a bydd ganddo safle peilot ar y we ddiwedd mis Mawrth. Bydd y safle’n cynnwys gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr, cynhyrchwyr a phrynwyr masnachol, a bydd yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod 2000 gan ddefnyddio adborth o’r safle peilot, strategaeth rhyngrwyd a ddatblygwyd gyda chymorth ymgynghorwyr o safon ryngwladol, a thrwy ymgynghori gyda’r diwydiant a’r bartneriaeth amaeth-bwyd.

## Cyfleusterau Lladd Anifeiliaid

**C24 Pauline Jarman:** Sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu cynyddu’r cyfleusterau lladd anifeiliaid yng Nghymru? (OAQ3953)

**Christine Gwyther:** Penderfyniad masnachol i weithredwyr yw hwn. Fodd bynnag, gan gydnabod y beichiau rheoleiddio ar y diwydiant cig, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Medi 1999 y byddent yn cynnal adolygiad o'r fiwrocratiaeth sydd y bodoli yn y sector cig, a sefydlwyd grŵp gwaith dan gadeiryddiaeth Mr Robin Pooley. Rhyddhawyd adroddiad y grŵp gwaith ar 13 Rhagfyr ac mae'r Llywodraeth bellach wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol.

Mae'r adroddiad yn nodi rhai meysydd lle gellid symleiddio'r rheoliadau, ond mae ei sgôp i weithredu yn gyfyngedig: deillia llawer o'r rheoliadau hyn o ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu o gyfraith y DU a roddwyd mewn grym i warchod diogelwch y cyhoedd.

Prif ddiddordeb y Cynulliad oedd ceisio ysgafnhau'r baich ar ladd-dai bach a chanolig eu maint, sydd yn chwarae rhan bwysig o safbwynt cyflwyno strategaeth amaeth-bwyd Cymru ac sydd yn helpu i roi sylfaen i fywyd economaidd yr economi gwledig ac amaethyddol. Cynrychiolwyd buddiannau Cymru gan Mr Bob Kennard ar y grp ond methodd y grŵp a chytuno ar argymhellion ar y mater hwn ac argymhellodd ei fod yn cael ei adolygu ymhellach. Yr oedd hyn yn siomedig ond bydd cynrychiolydd arall o Gymru yn aelod o'r grŵp gwaith arall hwn ac yr wyf yn benderfynol ein bod yn parhau i bwyso am driniaeth deg i'r sector bach a chanolig sydd dan bwysau ac, yn wir, holl ladd-dai Cymru.

### Trwyddedu Indrawn T25

**C25 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi eu cael ynghylch y posibilrwydd o drwyddedu indrawn T25 sydd wedi'i addasu'n enetig yng Nghymru? (OAQ3964)

**Christine Gwyther:** Yn sgîl pryderon y cyhoedd, mae'n bwysig bod y penderfyniadau a wnaf ynghylch y Rhestr Genedlaethol am y math GM hwn o indrawn porthi yn cael ei wneud yn agored a thryloyw.

Am y rhesymau hyn, gwahoddais y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i drafod y mater hwn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth. Mae'r Pwyllgor i drafod y mater eto, a byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad wedi hynny

### Lwfans Iawndal Da Byw Tir Uchel

**C26 Christine Humphreys:** Pa gyfran o gyllideb y cynllun newydd lwfans iawndal da byw sydd yn cael ei gwario ar weinyddu? (OAQ3978)

**Christine Gwyther:** Ni fydd unrhyw rai o'r costau gweinyddu ar gyfer y cynllun newydd ar gyfer ardaloedd llai ffafriol yn dod o gyllideb y cynllun.

### Cnydau Wedi'u Haddasu'n Enetig

**C27 Glyn Davies:** Pryd y bu Christine Gwyther yn trafod ddiwethaf ryddhau yn fasnachol gnydau wedi'u haddasu'n enetig gyda chyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd? (OAQ4003)

**Christine Gwyther:** Trafodwyd y mater pan ddaeth yr Athro Chris Pollock, cyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd, i gyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 9 Chwefror 2000.

### Cyfarfod â Chomisiynydd Amaethyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd

**C28 Geraint Davies:** Pryd y cyfarfu Christine Gwyther ddiwethaf â chomisiynydd amaethyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd i drafod y problemau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu yng Nghymru? (OAQ3954)

**Christine Gwyther:** Cyfarfûm â'r Comisiynydd Fischler fis Hydref diwethaf yn Strasbourg i drafod amryw o faterion a oedd yn ymwneud â'r diwydiant ffermio yng Nghymru.

## Olrhain Wyn Cymreig yn Electronig

**C29 Geraint Davies:** A wnaiff Christine Gwyther ddatganiad ynglŷn ag olrhain wyn Cymreig yn electronig? (OAQ3990)

**Christine Gwyther:** Ni fyddai'n briodol cyflwyno dulliau adnabod electronig gorfodol ar gyfer defaid hyd nes y bydd gofynion yr Undeb Ewropeaidd wedi'u cysoni. Mae'n amlwg bod angen inni ddisgwyl canlyniad treialon yr UE ar ddulliau adnabod electronig, sydd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, cyn cymryd penderfyniad ynghylch pa ddull fyddai'r gorau i'w fabwysiadu.

## Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig

**C30 Alun Cairns:** Pryd y bu Christine Gwyther yn trafod ddiwethaf ryddhau'n fasnachol gnydau wedi'u haddasu'n enetig gyda chyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd? (OAQ3995)

**Christine Gwyther:** Trafodwyd y mater pan ddaeth yr Athro Chris Pollock, cyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd, i gyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 9 Chwefror 2000.